Hawdd ei Ddeall

# Dyletswydd Gonestrwydd

## Canllaw i bobl sy'n cael gofal a thriniaeth



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **GIG Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ddyletswydd Gonestrwydd**.'

**Mawrth 2023**

# Beth yw Dyletswydd Gonestrwydd



Mae’n rhaid i sefydliadau’r GIG yng Nghymru fod yn agored ac yn onest am y gofal a’r driniaeth rydych chi’n eu cael.




Mae’n ddeddf ac yn rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020.



Mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn meddwl bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal ddweud wrthych chi neu rywun sy’n gweithredu ar eich rhan os bydd niwed yn cael ei achosi.



Mae **Dyletswydd Gonestrwydd** yn cael ei ddilyn os yw’r gofal rydyn ni’n ei roi wedi achosi niwed cymedrol, niwed difrifol, neu farwolaeth.

# Ein bwriad



Mae arnon ni eisiau darparu gofal diogel o safon uchel i bawb.



Weithiau, hyd yn oed pan fyddwn ni'n gwneud ein gorau, gall pobl gael profiad niweidiol. Dyna pam mae'r **Ddyletswydd Gonestrwydd** gennym ni.



Mae arnon ni eisiau bod yn agored ac yn onest am y gofal rydyn ni'n ei roi.



Mae arnon ni eisiau i bobl deimlo'n hyderus am y gofal a'r driniaeth maen nhw'n eu cael.

# Beth rydyn ni’n feddwl wrth niwed cymedrol neu ddifrifol?

## Niwed cymedrol:



Mae **Cymedrol** yn meddwl eithaf difrifol.



Mae’n **niwed cymedrol** pan fydd ar berson angen triniaeth bellach oherwydd bod y driniaeth a gawson nhw gan y GIG wedi achosi niwed neu wedi chwarae rhan mewn achosi niwed.



Mae’n eithaf difrifol ond nid yw’n niwed parhaol.



Enghraifft: Mae claf yn cael meddyginiaeth sy’n achosi alergedd arno, er ei fod yn dweud yn ei nodiadau bod y feddyginiaeth yn gwneud hyn. Mae’r claf yn cael adwaith oherwydd y feddyginiaeth. Mae arno angen aros yn yr ysbyty am bedwar diwrnod arall cyn y bydd yn gwella.

## Niwed difrifol:




Mae'n **ddifrifol** pan fydd gan berson.



Anabledd parhaol neu mae'n methu defnyddio rhan o'i gorff. Er enghraifft, colli golwg, colli clyw neu fethu defnyddio rhan o'r corff.



Gwnaeth gofal y GIG achosi neu chwarae rhan mewn achosi'r niwed.



Enghraifft: Mae claf yn cael meddyginiaeth sy'n achosi alergedd arno, er ei fod yn dweud yn ei nodiadau bod y feddyginiaeth yn gwneud hyn. Gall hyn arwain at niwed i'r ymennydd neu niwed parhaol arall i'r organau.

## Marwolaeth:



Mae claf yn marw oherwydd y gofal a gafodd gan y GIG neu efallai bod gofal y GIG wedi chwarae rhan yn hynny.




Enghraifft: Mae claf yn cael meddyginiaeth sy'n achosi alergedd arno, er ei fod yn dweud yn ei nodiadau bod y feddyginiaeth yn gwneud hyn. Mae hyn yn arwain at ei farwolaeth.

# Beth sy'n digwydd nesaf



Os yw'r gofal neu'r driniaeth rydyn ni'n eu rhoi wedi achosi niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth, byddwn yn dilyn y **Ddyletswydd Gonestrwydd**.



Mae'n rhaid i ni ddweud wrthych chi dros y ffôn, trwy alwad fideo neu wyneb yn wyneb.  Os yw'n well gennych chi, gallwn ddweud wrth rywun sy'n gweithredu ar eich rhan.

**Mae'n rhaid i ni:**



- Ddweud ei bod hi'n ddrwg gennym




- Egluro beth sydd wedi digwydd



- Cynnig cefnogaeth



- Dweud wrthych chi beth sy'n digwydd nesaf



- Rhoi person cyswllt i chi i siarad ag e pan fydd yr angen yn codi



Mae'n rhaid i ni anfon llythyr atoch chi neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan o fewn pum diwrnod gwaith. Bydd y llythyr yn cadarnhau y pethau roedden ni'n siarad amdanyn nhw pan wnaethon ni gysylltu â chi yn gyntaf.



Byddwn yn chwilio i mewn i beth ddigwyddodd a pham y digwyddodd. A sut y gallwn ni ei rwystro rhag digwydd eto.



Byddwn yn dilyn ein dull **Gweithio i Wella**.



Bydd eich person cyswllt yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y broses a beth fydd yn digwydd nesaf.



**Dywedwch wrthyn ni os nad oes arnoch chi eisiau i ni gysylltu â chi. Neu os oes arnoch chi eisiau i ni gysylltu â rhywun ar eich rhan yn lle hynny.**

# Dweud ei bod hi'n ddrwg gennym ni



Mae dweud ei bod hi'n ddrwg gennym ni yn rhan bwysig o **Ddyletswydd Gonestrwydd**.



Dyma'r ffordd rydyn ni'n dangos ein bod ni'n poeni am beth sydd wedi digwydd. Nid yw hyn er mwyn derbyn bai yn gyfreithiol.



# Mwy o gefnogaeth

Os oes gennych chi gwestiynau neu os hoffech chi gael mwy o wybodaeth:




- Ewch i'n gwefan: www.llyw.cymru/dyletswydd-gonestrwydd-y-gig



- Neu cysylltwch â'r man y cawsoch chi eich gofal.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247